



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mwy Nag Ailgylchu

Dangosyddion

DANGOSYDDION MWY NAG AILGYLCHU

Datblygwyd y set hon o ddangosyddion i ddangos y cysylltiad rhwng polisi a chanlyniad o fewn y strategaeth economi gylchol, gyda dangosyddion i olrhain cynnydd o ran y cyfeiriad a ddymunir.

Mae'r dangosyddion hefyd wedi'u cynllunio i gysylltu â'r dangosyddion cenedlaethol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Pan fo bylchau yn ein data, nodir y rhain a thynnir sylw at ein cynlluniau i fynd i'r afael â'r bylchau hynny.

Byddwn yn parhau i fireinio a diweddarau'r ddogfen hon dros amser, gan sicrhau bod y dangosyddion ar gyfer economi gylchol yn parhau i weithio gyda'r dangosyddion ehangach, gan gynnwys y rhai sy'n dod o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Prif Ddangosyddion

Lefel	Dangosydd	Polisi Ategol
1.1	Gwastraff cartrefi fesul pen	Mae cynhyrchu cynhyrchion bob dydd – gan gynnwys ceir, dillad a bwyd – yn cyfrif am 45% o allyriadau carbon byd-eang. Yn ogystal, rydym yn defnyddio llawer mwy na'n cyfran deg o adnoddau'r ddaear.
1.2	Gwastraff trefol sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi ^[1]	Erbyn 2025 ni fyddwn yn anfon unrhyw wastraff i safleoedd tirlenwi.
1.3	Gwastraff trefol sy'n cael ei ailgylchu ^[1]	Rydym am wneud Cymru'n genedl ddiwastraff erbyn 2050. I bob pwrpas, mae hyn yn golygu cyfradd ailgylchu, compostio neu baratoi i aildefnyddio o 100% o bob sector.
1.4	Sector cyhoeddus carbon sero-net ^[2]	Ar y cyd, bydd y Sector Cyhoeddus yng Nghymru yn sicrhau allyriadau nwyon tŷ gwydr sero-net erbyn 2030, gan ddatgarboneiddio adeiladau, trafnidiaeth a chadwyni cyflenwi.

Data Gweithgaredd

Lefel	Dangosydd	Polisi Ategol
2.1	Lleihau gwastraff bwyd ^[3]	Byddwn yn dileu gwastraff bwyd y gellir ei osgoi. Byddwn yn gweithio gyda busnesau ar draws y gadwyn gyflenwi gyfan, o fferm i fforc, i leihau gwastraff a sicrhau'r effeithlonrwydd adnoddau mwyaf posibl a chefnogi Fareshare Cymru wrth ailddosbarthu bwyd dros ben.

2.2	Arbediad carbon fesul pen o ailgylchu - y Mynegai Carbon ^[4]	Mae'r rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol yng Nghymru wedi mabwysiadu'r 'Glasbrint Casgliadau'. Yng Nghymru, mae hyn wedi cynyddu'r buddsoddiad mewn ailbrosesu a lleihau allyriadau carbon ar gyfer pob awdurdod lleol.
2.3	<p>2.3.1 Byddwn yn gweithio i flaenoriaethu'r defnydd o ddeunyddiau cynaliadwy a charbon isel ym maes adeiladu a ariennir drwy Raglenni Buddsoddi Cyfalaf Tai Llywodraeth Cymru</p> <p>2.3.2 Byddwn yn gweithio i ddefnyddio mwy o ddeunyddiau carbon isel wrth adnewyddu'r stoc tai cymdeithasol</p> <p>2.3.3 Byddwn yn gweithio i ddefnyddio mwy o ddeunyddiau carbon isel wrth adeiladu ysgolion newydd</p>	Byddwn yn blaenoriaethu'r defnydd o ddeunyddiau cynaliadwy a charbon isel yn gyntaf i waith adeiladu'r sector cyhoeddus gan gynnwys y Rhaglen Tai Arloesol, adnewyddu'r stoc tai cymdeithasol yng Nghymru, ac adeiladu ysgolion newydd. Byddwn hefyd yn archwilio'r broses o gyflwyno safonau technegol sydd wedi'u sefydlu ar gyfer ôl troed carbon.
2.4	Eco-ysgolion – canran yr ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n cofrestru	Mae'r rhaglen Eco-ysgolion wedi meithrin cenhedlaeth eco-ymwybodol nad ydynt yn canolbwyntio'n unig ar leihau gwastraff ac ailgylchu ond sut y gall ysgolion a chymunedau gyfrannu at wella canlyniadau ehangach megis cymunedau gwell a lleihau allyriadau.
2.5	Eitemau a atgyweiriwyd gan gaffis atgyweirio ^[5]	Byddwn yn cefnogi ac yn ariannu caffis atgyweirio ledled Cymru ymhellach, yn ogystal ag annog dinasyddion i ddefnyddio'r caffis atgyweirio.
2.6	Caffael – canran y gwariant sector cyhoeddus sy'n cael ei wario yng Nghymru	Mae symud tuag at economi gylchol yn allweddol i sicrhau canlyniadau amgylcheddol allweddol. Ond yn hollbwysig gall hefyd wella canlyniadau economaidd a chymdeithasol. Yn economaidd, drwy fabwysiadu dull gweithredu cylchol sy'n byrhau cadwyni cyflenwi, gall wella effeithlonrwydd, creu swyddi a chynyddu cystadleurwydd.
2.7	Plastig a anfonir y tu allan i Gymru – canran y gwastraff plastig a gasglwyd nad yw'n cael ei brosesu yng Nghymru ^[6]	Byddwn yn ysgwyddo cyfrifoldeb am ein gwastraff, ac ni fyddwn yn ei allforio i fod yn broblem mewn manau eraill. Rydym am gadw a defnyddio adnoddau sydd wedi'u hailgylchu yng Nghymru ar gyfer cynhyrchu ein deunyddiau a'n heconomi.

2.8	<p>Moderneiddio'r fflyd wastraff gyda cherbydau allyriadau isel iawn (ULEV)</p> <p>2.8.1. Canran yr RRV (cerbydau adennill adnoddau un pàs)</p> <p>2.8.2. Canran yr RCV (cerbydau casglu sbwriel confensiynol)</p> <p>2.8.3. Canran y cerbydau masnachol ysgafn</p>	<p>Byddwn yn lleihau llygredd amgylcheddol drwy newid y cerbydau casglu a ddefnyddir. Bydd hyn hefyd yn lleihau llygredd aer, yn gwella'r amgylchedd ac iechyd y cyhoedd, gan arwain at leihad yn y ddibyniaeth ar danwydd ffosil.</p>
------------	--	--

Gweithredu Polisi

Lefel	Dangosydd	Polisi Ategol
3.1	Glasbrint Casgliadau Llywodraeth Cymru ^[7]	Mae ymrwymo i'r glasbrint casgliadau yn golygu parhad o ran casgliadau gwastraff ac ailgylchu ledled Cymru, gan arwain at ddeunyddiau a gasglwyd sydd o ansawdd uwch.
3.2	Busnesau cynaliadwy - cynyddu nifer y busnesau sy'n mabwysiadu polisiau cynaliadwy	Byddwn hefyd yn ehangu ein cymorth arloesi o ran effeithlonrwydd adnoddau ac yn cynyddu nifer y busnesau sydd wedi arwyddo addewid Twf Gwyrdd Busnes Cymru

Data anaml i'w monitro:

- Dangosydd Cenedlaethol 15 – Swm y gwastraff a gynhyrchir ac na chaiff ei ailgylchu, y pen.
- Data arolwg ar wastraff a gynhyrchir gan y sector Adeiladu a Dymchwel a'r sector Diwydiannol a Masnachol. Mae'r rhain yn elfen bwysig o'n gwaith o fonitro ein targed lleihau gwastraff bwyd.
- Ysgolion di-garbon – nifer yr ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif sy'n ddi-garbon

Data sy'n cael eu datblygu

- Data defnyddio carbon

Mae'r data allyriadau carbon rydym yn eu cofnodi yn allyriadau tiriogaethol ac felly'n eithrio'r allyriadau o ddeunyddiau a nwyddau a gynhyrchir mewn mannau eraill i'w defnyddio ym marchnad Cymru.

- **Ôl troed carbon gwastraff**

Rydym yn gweithio ar ddatblygu dangosydd tebyg i Fetrig Carbon Gwastraff yr Alban y gellir ei ddefnyddio ar gyfer datblygu a monitro polisi mewn perthynas ag atal ac ailgylchu gwastraff. Bydd hyn yn ein galluogi i ganolbwyntio ar y deunyddiau sydd â'r ôl troed carbon cysylltiedig uchaf, ac felly y bydd eu lleihau neu eu hailgylchu yn gwneud gwahaniaeth sylweddol o ran allyriadau carbon.

- **Ôl troed deunyddiau / byw Un Blaned**

Rydym yn gweithio ar ddatblygu cyfres o ddata ôl troed. Mae'r broses o fesur yn gywir yn dibynnu ar gynhyrchu tablau Mewnbwn-Allbwn sy'n darparu un fframwaith i ddangos y berthynas rhwng cydrannau gwerth ychwanegol, mewnbynnau ac allbynnau'r diwydiant, a chyflenwi cynnyrch a'r galw amdano. Gwnaeth gwaith blaenorol gan Sefydliad Stockholm ym Mhrifysgol Caerefrog ddod i'r casgliad pe bai pawb yn y byd yn defnyddio'r un faint â'r dinesydd cyffredin yng Nghymru, y byddai angen 2.5 planed i gynhyrchu adnoddau byd-eang. Mae angen inni benderfynu beth y byddai'r defnydd o adnoddau un blaned yn cyfateb iddo o ran y defnydd o ddeunydd crai y pen. Byddwn yn blaenoriaethu'r defnydd o ddeunyddiau cynaliadwy a charbon isel ym maes adeiladu yng Nghymru i gefnogi cynnydd tuag at ddyfodol di-garbon oes gyfan ar gyfer adeiladu. Bydd tri dangosydd sy'n cael eu datblygu yn blaenoriaethu'r defnydd o ddeunyddiau cynaliadwy a charbon isel ym maes adeiladu o dan y Rhaglen Tai Arloesol, defnyddio mwy o ddeunyddiau carbon isel wrth adnewyddu'r stoc tai cymdeithasol a defnyddio mwy o ddeunyddiau carbon isel wrth adeiladu ysgolion newydd.

- **Swyddi yn yr Economi Gylchol**

Byddwn yn cydweithio ag adrannau eraill y Llywodraeth i ystyried mesur cyffredin ar gyfer swyddi yn yr economi gylchol. Fodd bynnag, nod Llywodraeth Cymru yw bod yr economi gyfan yn gylchol, yn hytrach na chael canran a ddymunir o swyddi yn yr economi gylchol.

TROEDNODIADAU

[1] Fel cyfran o gyfanswm y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol.

[2] Ar y cyd bydd Sector Cyhoeddus Cymru yn sicrhau allyriadau nwyon tŷ gwydr sero-net erbyn 2030. Byddwn yn datgarboneiddio ein hadeiladau, ein trafnidiaeth a'n cadwyni cyflenwi.


[3] Swm y gwastraff bwyd y gellir ei osgoi fesul pen o gartrefi, manwerthu a'r gwasanaethau lletygarwch a bwyd. Anelu at ei leihau gan ei haneru yn seiliedig ar linell sylfaen 2007.

[4] Y Mynegai Carbon – a gynhyrchir yn flynyddol gan Eunomia. Mae'r Mynegai Carbon Ailgylchu yn mesur perfformiad amgylcheddol gwasanaethau ailgylchu cynghorau. Mae'r Mynegai Carbon yn defnyddio swm pob deunydd y mae cyngor yn ei gasglu i gyfrifo faint o garbon sy'n cael ei arbed.

[5] Eitemau wedi'u hatgyweirio, neu wedi'u hatgyweirio yn rhannol gan gaffis atgyweirio a weithredir o dan faner Caffis Atgyweirio Cymru.

[6] Weithiau bydd awdurdodau lleol yn gwerthu ailgylchu i gwmni yng Nghymru, sydd wedyn yn ei allforio. Mewn rhai achosion nid yw'r wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd unwaith y bydd wedi'i gwerthu yng Nghymru ar gael. Mewn achosion o'r fath nodir y gyrchfan ddiwethaf sy'n hysbys, h.y. Cymru.

[7] Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu canllawiau i Awdurdodau Lleol ar yr hyn y mae'n ei ystyried yw'r dull mwyaf cynaliadwy o ymdrin â chasgliadau gwastraff. Nifer yr awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n dilyn y dull casglu a ffefrir gan Lywodraeth Cymru – y glasbrint.



Prif
Ddangosyddion

**1.1 Gwastraff
cartrefi fesul pen**

**1.2. Gwastraff trefol
sy'n cael ei anfon i
safleoedd tirlenwi**

**1.3. Gwastraff trefol
sy'n cael ei ailgylchu**

**1.4. Sector
cyhoeddus carbon
sero-net**

Data
Gweithgaredd

2.1 Lleihau gwastraff
bwyd

2.2 Y Mynegai Carbon –
arbediad carbon fesul
pen o ailgylchu

2.3 Buddsoddi cyfalaf
carbon isel ym maes
adeiladu

2.4 Eco-ysgolion

2.5 Eitemau a
atgyweiriwyd gan gaffis
atgyweirio

2.6 Caffael – canran y
gwariant sector
cyhoeddus sy'n cael ei
wario yng Nghymru

2.7 Plastig a anfonir y
tu allan i Gymru

2.8 Moderneiddio'r
fflyd wastraff gyda
cherbydau allyriadau
isel iawn (ULEV)

Data Polisi

3.1 Glasbrint
Casgliadau Llywodraeth
Cymru

3.2 Busnesau
cynaliadwy

